# CYMORTH CYNTAF AR GYFER ANAFFYLACSIS

Natasha Allergy Research Foundation
Ysgol Alergedd

## Adnabod Arwyddion Anaffylacsis...

### A Llwybr Anadlu

- Peswch parhaus
- Llais cryg
- Anhawster llyncu
- Tafod wedi chwyddo

### B Anadlu

- Trafferth anadlu neu anadlu'n swnllyd
- Y frest yn gwichian neu beswch parhaus


### C Cylchrediad

- Pendro barhaus
- Gwelw neu lipa
- Cysglyd yn sydyn
- Cwympo i'r llawr/mynd yn anymwybodol

**Gall adwaith alergaidd waethygu a throi'n anaffylacsis a allai beryglu bywyd.**

Dylech bob amser ystyried anaffylacsis os oes gan rywun alergedd i fwyd, hyd yn oed os nad oes arwyddion o frech, pothelli neu chwyddo.

## ANAFFYLACSIS: CAMAU I'W CYMRYD



Os oes gan rywun un neu fwy o'r symptomau uchod, dylech gymryd y camau yma.

### 1. Rhowch Chwistrelliad Adrenalin (AAI) i'r unigolyn ar unwaith.

**Chwistrellwch yr AAI i ben y glun allanol.** Os nad ydych chi'n siŵr ai anaffylacsis yw e ond bod yna un neu fwy o symptomau, rhowch yr AAI, **fydd e'n gwneud dim niwed i'r unigolyn.**



### 2. Deialwch 999 a dywedwch anaffylacsis ('ana-ffil-acsis').

Arhoswch gyda'r person hyd nes y bydd yr ambiwlans yn cyrraedd. **PEIDIWCH â gadael i'r unigolyn sefyll i fyny na cherdded o gwmpas.**

### 3. Dylai'r person orwedd ar unwaith.

**Os nad yw'r person yn gorwedd i lawr yn barod, dylai wneud hynny,** gyda'r coesau wedi'u codi os oes modd. Os yw anadlu'n anodd, gadewch i'r unigolyn eistedd. Os yw wedi chwydu neu'n teimlo'n gyfoglyd, trowch yr unigolyn ar ei ochr yn ofalus.



### 4. Chwistrellwch ail AAI i'r glun allanol os nad oes arwyddion o welliant ar ôl 5 munud.

Os nad oes arwydd o fywyd, dechreuwch CPR ar unwaith hyd nes y bydd help yn cyrraedd.

**Da chi, dysgwch y camau yma. Mae'n wybodaeth sy'n achub bywydau. Dydych chi byth yn gwybod pryd y bydd angen i chi ymateb mewn argyfwng anaffylacsis.**

Natasha Allergy Research Foundation
Elusen Alergedd Bwyd y DU

Grymuso • Cynnwys • Diogelu
AllergySchool.org.uk

Elusen gofrestredig Cymru a Lloegr (1181098) Yr Alban (SC051610). Yn seiliedig ar ganllawiau BSACI a MHRA 2023.